



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Adroddiad Blynyddol Annual Report

2023-2024



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

**Dathlu Dysgu
Cymraeg**

**Celebrating
Learning Cymraeg**

**Adroddiad Blynyddol y Ganolfan Dysgu
Cymraeg Genedlaethol**

**Annual Report of the National Centre
for Learning Welsh**

**Blwyddyn academaidd
2023-2024**



Cynnwys

1. Croeso	4
2. Amdanom ni	6
3. Blas ar y flwyddyn	12
4. Dysgu gyda ni	14
5. Denu	18
6. Dysgu	22
7. Defnyddio	28
8. Cynllunio Strategol	38
9. Cysylltwch â ni	44

Contents

1. Croeso - Welcome	5
2. About us	7
3. Snapshot of the year	13
4. Learn with us	15
5. Attract	19
6. Teach	23
7. Use	29
8. Strategic Planning	39
9. Contact us	44

1. Croeso

Emlyn Dole

**Cadeirydd Bwrdd Cwmni
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Mae cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n dysgu Cymraeg, gyda bron i 17,000 yn mwynhau dysgu'r iaith ar gyrsiau'r Ganolfan Genedlaethol.

Mae'r Ganolfan yn creu partneriaethau effeithiol, sy'n arwain at gynlluniau newydd a mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.

Ein dysgwyr sy'n ganolog i'r gwaith, ac mae'n braf nodi canlyniadau'r holiadur blynyddol, gyda 99% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn canmol eu tiwtoriaid.

Wrth i ni i gyd gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd fel cadeirydd y Bwrdd, yr Hybarch Randolph Thomas, ac i'm cyd-aelodau am eu cefnogaeth barhaus.

Diolch, hefyd, i Dona Lewis a'i thîm, ein darparwyr a phawb sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y sector Dysgu Cymraeg am eu holl waith.

1. Croeso

Emlyn Dole

**Chair of the Board of Directors
National Centre for Learning Welsh**

There has been an increase in the number of Welsh learners, with almost 17,000 people enjoying learning Cymraeg on the National Centre's courses.

The Centre forms effective partnerships, which lead to new learning programmes and more people using Welsh in their everyday lives.

Our learners are central to our work, and it's heartening to see the results of the annual questionnaire, with 99% of respondents saying they enjoy learning Welsh, and praising their tutors.

As we all support the Welsh Government's aim of reaching a million Welsh speakers by 2050, I would like to thank my predecessor as chair of the Board, the Venerable Randolph Thomas, and my fellow members for their continuing support.

Thanks also to Dona Lewis and her team, our providers and everyone working and volunteering in the Learn Welsh sector for all their work.

2. Amdanom ni

Cefndir

Mae bron i 17,000 (16,905)* o bobl yn mwynhau dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y corff sy'n gyfrifol am y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnig cyrsiau, adnoddau a chynlluniau amrywiol, gan weithio'n agos gyda'i darparwyr a phartneriaid.

Prif amcanion

Wrth iddi ymestyn ei gwasanaethau i ddysgwyr a siaradwyr newydd y Gymraeg, mae'r Ganolfan yn dilyn yr amcanion canlynol:

- Denu: Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu.
- Dysgu: Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol, o ansawdd uchel.
- Defnyddio: Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd.

**Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar waith blwyddyn academiaidd 2023-2024, ond mae'r data swyddogol diweddaraf ar gael ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022-2023.*



2. About us

Background

Almost 17,000 (16,905)* people enjoy learning Welsh with the National Centre for Learning Welsh, the organisation responsible for the Learn Welsh sector. The National Centre offers courses, resources and special programmes, working closely with its providers and partners.

Key objectives

As the National Centre delivers its extensive services to learners and new speakers of Welsh, it is guided by three key objectives:

- Attract: Open doors to learning Welsh and attracting more learners.
- Teach: Provide a variety of high-quality learning opportunities.
- Use: Support the use of Welsh by learners in their everyday lives.

**This document reports on the work of the 2023-2024 academic year, however the latest official data available is for the 2022-2023 academic year.*



Lefelau dysgu

Mae cyrsiau'r Ganolfan yn cyd-fynd â lefelau dysgu Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd, y 'CEFR' (Common European Framework of Reference for Languages).

Mae'r cyrsiau ar gael ar bum lefel:

- **Mynediad (ar gyfer dechreuwyr);**
- **Sylfaen;**
- **Canolradd;**
- **Uwch;**
- **Gloywi.**


Mae'r pwyslais ar siarad a mwynhau'r iaith.

Modelau dysgu

Mae dewis o fodelau dysgu ar gael, gan gynnwys cyrsiau wyneb-yn-wyneb, cyrsiau rhithiol, cyrsiau hunan-astudio ar-lein, a chysiau sy'n cyfuno dysgu dan arweiniad tiwtor gyda hunan-astudio ar-lein.

Mae cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau dwyster, gyda'r hwyr ac yn ystod y dydd.

Mae cyrsiau preswyl hefyd ar gael.



Learning levels


The National Centre's courses align with the language learning levels of the Common European Framework of Reference for Languages (CEFR), and are available on five learning levels:

- **Entry/Mynediad (for beginners);**
- **Foundation/Sylfaen;**
- **Intermediate/Canolradd;**
- **Advanced/Uwch;**
- **Proficiency/Gloywi.**

The emphasis is on speaking and enjoying the language.

Learning models

Different learning models are available, including face-to-face courses, virtual courses, online self-study courses and blended learning courses, which combine tutor-led classes with online self-study. Courses are available at different intensity levels, during the daytime and evenings, in communities, schools and workplaces. Residential courses are also available.



Darparwyr

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithio gyda darparwyr lleol, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan.



Darparwr	Ardaloedd Llywodraeth Leol
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys	Ceredigion, Powys
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Sir Gâr
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili
Dysgu Cymraeg Y Fro	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol

Providers

The National Centre works with local providers, which deliver courses on its behalf.

Provider	Local Authority Areas
Learn Welsh North West	Gwynedd, Môn, Conwy
Learn Welsh North East	Denbighshire, Flintshire, Wrexham
Learn Welsh Ceredigion - Powys	Ceredigion, Powys
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea, Neath Port Talbot
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire
Learn Welsh Gwent	Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan
Learn Welsh Cardiff	Cardiff
Learn Welsh Glamorgan	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	National

3. Blas ar y flwyddyn

Dona Lewis

Prif Weithredwr
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Mae'r galw am gyrsiau Dysgu Cymraeg ar i fyny, ac mae wedi bod yn ffrainc cefnogi miloedd o ddysgwyr i ddod yn siaradwyr newydd yr iaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r data swyddogol diweddaraf, ar gyfer 2022-2023, yn dangos bod yn agos at 17,000 o bobl (16,905) wedi mwynhau ein cyrsiau, sydd ar gael ar bum lefel dysgu sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd, (CEFR).

Mae ein cyrsiau cymunedol yn parhau'n ganolog, ond mae gwaith y Ganolfan Genedlaethol yn ymestyn, ac mae'n cydweithio'n agos â sectorau megis Iechyd a Gofal, y Gweithlu Addysg a Chwaraeon, i gynnal cynlluniau arbennig sy'n denu cynulleidfaoedd newydd at yr iaith.

Mae mwy o bobl 16-25 oed yn dysgu Cymraeg gyda ni, ac mae'r Ganolfan yn gweithio'n greadigol i gynnig cyfleoedd Dysgu Cymraeg amrywiol, arloesol sy'n rhoi croeso i bawb.

Rhaid canmol a diolch i'n dysgwyr a'n tiwtoriaid am eu brwdfrydedd a'u hangerdd, sy'n ysbrydoli pawb sy'n ymwneud â'r sector Dysgu Cymraeg i gynnig y gwasanaethau gorau posibl.

Edrychwn ymlaen at adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf, gan rannu ein harbenigedd a'n profiadau o addysgu a chaffael y Gymraeg.

3. Snapshot of the year

Dona Lewis

Chief Executive
National Centre for Learning Welsh

The demand for Learn Welsh courses is high, and it has been a privilege over the past year to support thousands of learners to become new speakers of Welsh.

The latest available data, for 2022-2023, shows almost 17,000 people (16,905) enjoyed our courses, which are available at five learning levels which align with the Common European Framework of Reference for Languages (CEFR).

Our community-based courses remain central, but the National Centre's work is expanding, and we work closely with sectors such as Health and Social Care, the Education Workforce and Sport to offer special programmes which attract new audiences to the language.

More people aged 16-25 are learning Welsh with us, and the Centre works creatively to offer a range of pioneering, Learn Welsh opportunities, where everyone is welcomed.

We must praise and thank our learners and tutors for their enthusiasm and passion that inspire everyone involved in the Learn Welsh sector to deliver the best possible services.

We look forward to building on the success of the past year, sharing our expertise and experience of language acquisition and the teaching of Welsh.

4. Dysgu gyda ni

Dyma gipolwg ar rai o'r bobl sy'n dysgu ac yn addysgu'r Gymraeg:

Isabella Colby Browne

Enillodd Isabella Fedal Bobi Jones yn Eisteddfod yr Urdd 2024. Mae Isabella, 23, yn actores, a dechreuodd ddysgu ddwy flynedd yn ôl, gan ddilyn cyrsiau'r Ganolfan Genedlaethol. Meddai: "Mae fy mhrofiad i o ddysgu Cymraeg wedi bod yn anhygoel. Dw i erioed wedi cael fy annog neu fy nghrosawu gymaint gan gymuned."

Nooh Ibrahim

Mae Nooh yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Fitzalan, Caerdydd, ac mae'n Swyddog Datblygu Chwaraeon Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda'r Urdd. Mae wedi dilyn cwrs Dysgu Cymraeg dwys yn ei weithle, diolch i bartneriaeth rhwng yr Urdd a'r Ganolfan.

Mark Adey

Mae Mark yn gweithio fel athro, a dechreuodd ddysgu Cymraeg 10 mlynedd yn ôl, i gefnogi ei ferch, oedd yn astudio Lefel A Cymraeg ail iaith. Mark yw Cadeirydd Maes D (pentref y dysgwyr) Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024.



4. Learn with us

Here's a snapshot of some of the people learning and teaching Welsh:

Isabella Colby Browne

Isabella won the Bobi Jones Medal for Welsh learners at the 2024 Urdd Eisteddfod. Isabella, 23, is an actor and started learning two years' ago, following the National Centre's courses. She said: "My experience of learning Welsh has been incredible. I have never been so encouraged or welcomed by a community."

Nooh Ibrahim


Nooh is a former pupil of Fitzalan Comprehensive School, Cardiff, and works as a Diversity and Inclusion Sports Development Officer with the Urdd. Nooh has followed an intensive Learn Welsh course in the workplace, thanks to a partnership between the Urdd and the Centre.

Mark Adey

Teacher, Mark, started learning Welsh 10 years ago, to support his daughter, who was studying A level Welsh second language. Mark is the Chair of Maes D (the Welsh learners' village) at this year's Rhondda Cynon Taf National Eisteddfod.

Cyril Jones

Bu Cyril yn athro Cymraeg yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth am 12 mlynedd, cyn troi ei olygon at ddysgu oedolion. Bu'n diwtor poblogaidd gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr yn y Canolbarth am flynyddoedd lawer. Erbyn hyn, mae'n dysgu dosbarthiadau Gloywi, a dosbarthiadau Ysgrifennu Creadigol a Gwerthfawrogi Llenyddiaeth.



Cyril Jones

Cyril taught Welsh for 12 years at Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth, before turning to teaching adults. He was a popular tutor with the Workers' Educational Association in mid Wales for many years. He now teaches Proficiency/Gloywi classes, and Creative Writing and Literature Appreciation classes.

Non Williams

Mae Non wedi bod yn diwtor Dysgu Cymraeg ers bron i saith mlynedd, gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe. Mae'n dysgu'r iaith ar bob lefel, ac enillodd wobr Ysbrydoli! yng ngwobrau tiwtoriaid y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ddiweddar.



Non Williams

Non has worked as a Learn Welsh Tutor for almost seven years with Learn Welsh Swansea Bay Region. Non teaches at all learning levels, and won an Inspire! award at the recent Learning and Work Institute tutor awards.

Rhiannon Taylor

Mae Rhiannon yn arwain prosiect arbennig Cymraeg yn y Cartref mewn chwe ysgol yng Ngheredigion, gan gynnal cyrsiau ar bob lefel. Enillodd wobr Tiwtor y Flwyddyn yn Seremoni Wobrwyo Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys eleni.



Rhiannon Taylor

Rhiannon heads up a special Welsh at Home project in six schools in Ceredigion, running courses at each learning level. Rhiannon won the Tutor of the Year award at Learn Welsh Ceredigion-Powys' Awards Ceremony.

5. Denu: Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu

Marchnata

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnal ymgyrchoedd a gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn, yn bennaf ar lwyfannau digidol, er mwyn denu pobl at yr iaith.

Interested in learning Welsh?

New courses for beginners are starting soon. Use our **WELSH24** code to pay just £50!

Adnabod rhywun sy eisiau dysgu Cymraeg?

Cyrsiau newydd ar gyfer dechreuwyr cyn bo hir. Defnyddiwch ein côd **WELSH24** i dalu dim ond £50!

18-25? You can learn for free! Cyrsiau am ddim i bobl ifanc!

Logos: dysgucymraeg.cymru, learnwelsh.cymru, Cymraeg Dynau Dysgu

Would you love to learn Welsh?

Join our new courses for beginners - just £50! Use our discount code: **WELSH24**.

Adnabod rhywun sy eisiau dysgu Cymraeg?

Mae cyrsiau newydd ar gyfer dechreuwyr ar gael - dim ond £50! Defnyddiwch ein côd disgownt: **WELSH24**.

Logos: dysgucymraeg.cymru, learnwelsh.cymru, Cymraeg Dynau Dysgu

5. Attract: Open doors to learning Welsh and attract more learners

Marketing

The National Centre delivers campaigns and activities throughout the year, mainly on digital platforms, in order to promote Welsh learning opportunities and to attract people to the language.

Cynnig Cyw Cynnar: disgownt 50%!

Early Bird Offer: 50% discount!

Defnyddiwch ein côd 'CYW24'.

Use our 'CYW24' code.

Logos: dysgucymraeg.cymru, learnwelsh.cymru, Cymraeg Dynau Dysgu

Cofiwch!

Cofrestrwch cyn diwedd Gorffennaf i gael disgownt 50% ar eich cwrs nesaf.

Remember!

Sign up before the end of July for a 50% discount on your next course.

Côd/code: **CYW24**

Logos: dysgucymraeg.cymru, learnwelsh.cymru, Cymraeg Dynau Dysgu

Dysgwyr yn canmol

Fe wnaeth bron i 5,000 o'n dysgwyr (4,803) ymateb i holiadur 'Dweud Eich Dweud' 2023-2024, gyda chanmoliaeth uchel eto eleni:

- Nododd 99% eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg.
- Nododd 99% bod y tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol.

Learners' voices

Almost 5,000 of our learners (4,803) responded to the 'Dweud Eich Dweud' (Have Your Say) 2023-2024 questionnaire, with high praise again this year:

- 99% of respondents said they enjoyed learning Welsh.
- 99% said their tutor taught the course effectively.

Ystadegau

Cyfnod Data: 1 Awst 2022 - 31 Gorffennaf 2023

Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi cyhoeddi ei data swyddogol diweddaraf, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae'r data yn dangos cynnydd o 11% yn niferoedd y dysgwyr unigryw, o gymharu â blwyddyn academaidd 2021-2022, gyda 16,905 o bobl yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan.

Mae cynnydd o 9% yn niferoedd y bobl ifanc sy'n dysgu, o gymharu â 2021-2022, gyda 2,170 o bobl 16-24 oed yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan.

Niferoedd y dysgwyr unigryw, ers i'r Ganolfan ddechrau cyhoeddi data:

2017 - 2018	12,680
2018 - 2019	13,260
2019 - 2020	17,505*
2020 - 2021	14,965
2021-2022	15,260
2022-2023	16,905

**Mae blwyddyn 2019-2020 yn eithriad ble bu cynnydd sylweddol yn niferoedd y dysgwyr wnaeth droi at y cyrsiau hunan-astudio ar lefel blasu ar ddechrau cyfnod y pandemig.*

Mae mwy o fanylion ar wefan y Ganolfan: dysgucymraeg.cymru

Statistics

Data Period: 1 August 2022 - 31 July 2023

The National Centre has published its latest official data, for the 2022-2023 academic year.

The data shows an 11% increase in the numbers of unique learners, compared with the 2021-2022 academic year, with 16,905 people completing the Centre's courses.

There's a 9% increase in the numbers of young people learning Welsh, compared with 2021-2022, with 2,170 people aged 16-24 completing the Centre's courses.

Numbers of unique learners, since the Centre started publishing data:

2017 - 2018	12,680
2018 - 2019	13,260
2019 - 2020	17,505*
2020 - 2021	14,965
2021-2022	15,260
2022-2023	16,905

**2019-2020 was an exception when there was a significant increase in the number of learners following online taster courses at the beginning of the pandemic period.*

More details are available on the Centre's website: learnwelsh.cymru

6. Dysgu: Darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg amrywiol ac o safon uchel


Gwasanaethau Dysgu Cymraeg

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithio'n barhaus i fireinio, teilwra a chyflwyno cyrsiau ac adnoddau, er mwyn hwyluso'r dysgu a chreu cyfleoedd newydd i bobl fwynhau dysgu a siarad Cymraeg.

6. Teach: Provide a variety of high quality learning opportunities

Learn Welsh Services

The National Centre is continuously improving, adapting and introducing courses and resources to facilitate learning Welsh and to create new opportunities for people to enjoy learning and speaking the language.



Yn ogystal ag oddeutu 1,500 o gyrsiau cymunedol, cynhaliwyd cynlluniau i dargedu cynulleidfaoedd penodol:

Pobl Ifanc

- Gweithiodd y Ganolfan gyda Gwobr Dug Caeredin (DofE) i gyhoeddi adnodd Dysgu Cymraeg newydd yn adran sgiliau'r Wobr. Mae'r adnodd yn cyflwyno geiriau a phatrymau iaith, gan ddilyn themâu fel cerddoriaeth a diwylliant Cymru.
- Cynhaliodd Coleg Cambria gynllun peilot llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach, gydag un o'u dysgwyr, Melody Griffiths, yn ennill Medal y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd 2024.
- Cynhyrchwyd adnoddau pwrpasol ar gyfer pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddysgu'r Gymraeg a deall mwy am Gymru, gan gynnwys opera sebon o'r enw 'Fflat Mêts'.
- Gosodwyd cyrsiau Dysgu Cymraeg yn rhan o gynlluniau prentisiaethau, gan gynnwys cynllun cwmni animeiddio, Hollow Pixel.
- Cynhaliwyd cynllun peilot arholiad Mynediad gyda disgyblion Blynnyddoedd 8 a 9.

Mae'r Ganolfan wedi cynnal cwrs penwythnos ar gyfer pobl ifanc, ac mae cwrs Dysgu Cymraeg byr wedi cael ei gynnis i fyfyrwyr Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach Rhondda Cynon Taf, mewn partneriaeth â'r Eisteddfod Genedlaethol.



Lansiad sgil Cymraeg Gwobr Dug Caeredin.
The launch of the Duke of Edinburgh Award Welsh language skill.

In addition to around 1,500 community-based courses, special programmes were delivered for specific audiences:

Young people

- The Centre worked with the Duke of Edinburgh Award (DofE) to launch a new Learn Welsh resource in the Award's skills section. The resource introduces vocabulary and language patterns, following themes such as Welsh music and culture.
- Coleg Cambria held a successful pilot for Further Education students, with one of their learners, Melody Griffiths, winning the Learners' Medal at the 2024 Urdd Eisteddfod.
- Tailored resources were produced for young people, to help them learn Welsh and learn more about Wales, including a soap opera called 'Fflat Mêts'.
- Learn Welsh courses were integrated into apprenticeship schemes, including one such scheme with animation company, Hollow Pixel.
- An Entry/Mynediad level exam pilot was held with Year 8 and 9 pupils.

The Centre has held a weekend residential course for young people, while a short Learn Welsh course has been offered to Sixth Form and Further Education students in Rhondda Cynon Taf, in partnership with the National Eisteddfod.



Cynllun Croeso'n ôl

Cynhaliwyd cynllun peilot yn ardaloedd Conwy a Môn i gynnig hyfforddiant arbennig i siaradwyr Cymraeg oedd wedi colli hyder i ddefnyddio'r iaith. Roedd diddordeb mawr yn yr hyfforddiant, a bydd y Ganolfan yn bwrw ati i werthuso'r cynllun yn llawn.

Cymraeg i'r Teulu

Erbyn hyn, mae Tiwtoriaid Dysgu Cymraeg wedi'u lleoli mewn nifer o ysgolion cynradd, er mwyn hwyluso'r cyfleoedd i rieni a gofalwyr ddysgu'r Gymraeg. Mae'r cynllun ar y cyd â Mudiad Meithrin, Clwb Cwtsh, hefyd yn parhau'n ffordd boblogaidd o ddechrau dysgu'r iaith.

'Welcome Back - Croeso'n ôl' programme

A pilot project was held in Conwy and Môn offering specialist training to Welsh speakers who'd lost confidence to use the language. There was much interest in the training, and the National Centre will shortly evaluate the project.

Welsh for the Family

Learn Welsh Tutors are now based in a number of primary schools, in order to facilitate opportunities for parents and carers to learn Welsh. Clwb Cwtsh, a joint project between the Centre and Mudiad Meithrin, which offers opportunities for parents and learners to start learning Welsh, also remains popular.

Datblygu'r gweithlu Dysgu Cymraeg

Cynllun Academi

Mae sicrhau cyfleoedd hyfforddiant i diwtoriaid yn hollbwysig er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaethau Dysgu Cymraeg. Mae sesiynau hyfforddi rheolaidd a chynhadledd flynyddol yn cael eu cynnal fel rhan o gynllun Academi y Ganolfan. Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithio gyda'i darparwyr i gynnig cymhwyster 'Dechrau Dysgu' i diwtoriaid newydd.

Tiwtoriaid Yfory

Mae cynllun Tiwtoriaid Yfory wedi ennill ei blwyf, gyda chriwiau o bobl ifanc yn dilyn cwrs hyfforddiant bob haf. Maen nhw'n cael cyfle i arsylwi dosbarthiadau Dysgu Cymraeg a dysgu am dechnegau addysgu a chaffael iaith gan arbenigwyr y Ganolfan a'i darparwyr. Mae nifer o'r cyn-fyfyrwyr yn gweithio fel Tiwtoriaid Dysgu Cymraeg.



Developing the Learn Welsh workforce

Academi

Providing training opportunities for tutors is vital, in order to maintain the standards of the Learn Welsh services. Regular training sessions and an annual conference are held as part of the National Centre's Academi programme. The Centre also works with its providers to offer the 'Dechrau Dysgu' qualification to new tutors.



Tutors of Tomorrow

The Tutors of Tomorrow training programme is well established, with groups of young people training each summer. They have an opportunity to observe Learn Welsh lessons and learn about teaching techniques and language acquisition from experts from the Centre and its providers. A number of past students are now working as Learn Welsh Tutors.



Tim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a dderbyniodd tîws Cyflogwr Cymraeg Gwaith 2024.
Team members from Betsi Cadwaladr University Health Board, recipient of the Work Welsh Employer 2024 award.



Staff a phrentisiaid cwmni animeiddio Hollow Pixel.
Staff and apprentices from animation company Hollow Pixel.

7. Defnyddio: Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd

Rhan hollbwysig o waith y Ganolfan Genedlaethol yw creu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, yn eu gwaith ac yn eu cymunedau.

Cymraeg Gwaith

Mae tua 2,000 o gyflogwyr wedi manteisio ar y cynllun i gryfhau sgiliau dwyieithog yn y gweithle, Cymraeg Gwaith. Mae dewis o hyfforddiant ar gael, gan gynnwys cyrsiau hunan-astudio ar-lein, cyrsiau codi hyder, cyrsiau dwys a thiwtoriaid ar leoliad.

7. Use: Support the use of Welsh by learners in their everyday lives

A vital part of the National Centre's work is to create opportunities for learners to use their Welsh language skills, in both their workplace and their communities.

Work Welsh

Around 2,000 employers have benefited from the Centre's programme to increase bilingual skills in the workplace, Work Welsh. A range of training is available, including online self-study courses, confidence-building courses, intensive courses and workplace-based tutoring.

Yn ystod y flwyddyn....

- Cryfhawyd y cydweithio gyda'r sector Iechyd a Gofal, gyda Thiwtor Dysgu Cymraeg wedi'i leoli ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.
- Datblygwyd cyrsiau pellach ar gyfer gweithwyr Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar.
- Cyhoeddwyd partneriaeth newydd gyda Chlwb Pêl-droed Wrexham, gyda Thiwtor Dysgu Cymraeg ar leoliad yn cynnig hyfforddiant i chwaraewyr a staff.
- Lleolwyd tiwtoriaid gyda nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Casnewydd.
- Cafodd y bartneriaeth gyda'r Urdd ei hymestyn, gyda chynlluniau ar y gweill i gydweithio â Gwasanaeth Awyr Agored y mudiad.



**Staff Ysgol Gynradd Langstone sy wedi bod yn dysgu Cymraeg.
Staff from Langstone Primary School who have been learning Welsh.**

During the year....

- The Centre strengthened its partnership with the Health and Social Care sector, with a Learn Welsh Tutor based at each Health Board in Wales.
- Further courses were developed for Early Years Education and Care workers.
- A new partnership was launched with Wrexham AFC, with a Learn Welsh Tutor offering onsite training to players and staff.
- A number of tutors were placed with local authorities, including Newport Council.
- The partnership with the Urdd was extended, with plans underway to work with the organisation's Outdoors Services.



**Cyhoeddi partneriaeth newydd gyda Chlwb Pêl-droed Wrexham.
New partnership with Wrexham AFC.**

Dyma rai o gyflogwyr Cymraeg Gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Cymorth i Ferched Cymru
- Gyrfa Cymru
- HMRC
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Race Council Cymru
- RNIB Cymru
- Y Bathdy Brenhinol
- Yr Eglwys yng Nghymru

Gweithlu Addysg

Mae'r Ganolfan wedi cyhoeddi rhaglen Dysgu Cymraeg gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu addysg. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyrsiau hunan-astudio ar-lein, cyfleoedd codi hyder, cyrsiau yn y gymuned a chysiau dwys - gyda'r nod yn y pen draw o gefnogi sgiliau Cymraeg plant ysgolion Cymru.

Hapus i Siarad

Lansiwyd 'Hapus i Siarad', mewn partneriaeth â Mentrau Iaith Cymru. Mae'r cynllun yn adnabod busnesau lleol ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad, ac yn cyfeirio dysgwyr at y busnesau hynny i ddefnyddio'u Cymraeg. Mae'r cynllun yn estyniad o 'Siarad', sy'nparu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, gyda'r nod o adeiladu hyder dysgwyr.



Here are some of the Work Welsh employers over the past year:

- Bannau Brycheiniog National Park
- Careers Wales
- HMRC
- Race Council Cymru
- RNIB Cymru
- The Church in Wales
- The Royal Mint
- Welsh Refugee Council
- Women's Aid

Education Workforce

The National Centre has introduced a comprehensive Learn Welsh programme for the education workforce. The programme includes online self-study courses, confidence-building opportunities, workplace-based courses and intensive courses - with the ultimate aim of supporting the Welsh language skills of pupils in Wales.

Hapus i Siarad - Happy to Talk

'Hapus i Siarad' is a new scheme, developed in partnership with the Mentrau Iaith language initiatives. The scheme identifies local businesses where Welsh is spoken, and refers learners to those businesses, where they can use their Welsh. The scheme is an extension of 'Siarad', which partners Welsh learners and speakers, with the aim of building learners' confidence.

Darllen, gwranddo, gwylio

Mae'r bartneriaeth agos gyda Chyngor Llyfrau Cymru yn parhau, ac erbyn hyn mae dros 40 o lyfrau hamdden yn y gyfres i ddysgwyr, Amdani. Cynhaliwyd Gŵyl Ddarllen Amdani a chyhoeddwyd cylchgrawn 'Hwyl yr Haf'. Cynhaliwyd yr 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg' boblogaidd ar BBC Radio Cymru. Gyda chefnogaeth y Ganolfan, mae BBC Cymru Fyw wedi creu adran benodol ar gyfer dysgwyr, ac mae S4C wedi dechrau cylchlythyr i ddysgwyr. Mae'r cydweithio yn parhau â Theatr Genedlaethol Cymru, gyda sgysiau ar gyfer dysgwyr a gostyngiadau i bartneriaid Siarad.

Cyfeirwch HWYL YR HAF



Diolch i'n partneriaid

Mae'r Ganolfan yn cynnal partneriaethau grymus, er mwyn denu mwy o bobl at y Gymraeg ac er mwyn creu cyfleoedd i'w dysgwyr fwynhau defnyddio'r Gymraeg. Dyma rai o bartneriaid y Ganolfan dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Addysg Oedolion Cymru
- BBC Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Merched y Wawr
- Mudiad Meithrin
- S4C
- Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Yr Urdd

Reading, listening, viewing

The close partnership with the Books Council of Wales continues, with over 40 titles available in the series for learners, Amdani. The Amdani Festival of Reading was held, along with the popular celebration of learning Welsh, 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg', on BBC Radio Cymru. With the Centre's support, BBC Cymru Fyw has introduced a section on its website for learners, while S4C has also introduced a newsletter for learners. The collaboration with Theatr Genedlaethol Cymru also continues, with pre and post production talks for learners, and discounts for Siarad pairs.

Cwrdd â'r cyflwynwyr!

Nos Lun 16 Hydref am 7:00pm

Cyfle i fwynhau sgwrs gyda rhai o brif leisiau BBC Radio Cymru:

- Bethan Rhys Roberts
- Iwan Griffiths
- Mirain Iwerydd

Sgwrs fyw ar Zoom - archebwch eich lle nawr. Yn addas i ddysgwyr Canolradd*.

Join this virtual Q&A - for learners at Intermediate*.



Diolch - thank you to our partners

The National Centre maintains powerful partnerships, in order to attract more people to the Welsh language, and to create more opportunities for learners to enjoy using their Welsh. Here are some of the Centre's partners over the past year:

- Adult Learning Wales
- BBC Cymru Wales
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Comisiynydd y Gymraeg - Welsh Language Commissioner
- Welsh Council for Refugees
- Books Council of Wales
- Eisteddfod Genedlaethol
- Merched y Wawr
- Mudiad Meithrin
- S4C
- Learning and Work Institute
- Theatr Genedlaethol Cymru
- The Urdd

Rhannu profiadau

Mae rhannu arbenigedd a phrofiadau caffael iaith yn un o amcanion y Ganolfan. Yn ystod y flwyddyn cafodd swyddogion gyfle i:

- Fynychu cynhadledd ieithoedd llai a chynaliadwyedd - An Inbhuanaitheacht agus na Mionteangacha - ym Mhrifysgol Corc, Iwerddon;
- Cymryd rhan yng Nghynhadledd Cymdeithas y Comisiynwyr Iaith yng Nghaerdydd;
- Siarad mewn digwyddiad rhithiol a gynhaliwyd gan fentrau iaith Quebec, Canada;
- Cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid y Fanaweg ar Ynys Manaw.

Sharing experiences

Sharing its language learning and acquisition expertise is one of the Centre's aims. During the year, officers had the opportunity to:

- Attend a Sustainability and Minority Languages/An Inbhuanaitheacht agus na Mionteangacha conference at Cork University, Ireland;
- Take part in the International Association of Language Commissioners (IALC) conference in Cardiff;
- Speak at a virtual event held by language initiatives in Quebec, Canada;
- Deliver training sessions for Manx language tutors on the Isle of Man.



8. Cynllunio Strategol

Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yw Emlyn Dole (cadeirydd), Maria Stedman, a Geraint Roberts. Ymddeolodd yr Hybarch Randolph Thomas yn ystod y flwyddyn. Mae'r aelodau yma yn gyfarwyddwyr; mae aelodau anweithredol ychwanegol o blith staff y Ganolfan Genedlaethol, yn ogystal ag Alun Jones, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan, sy'n sylwedydd.

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. O dan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol, sy'n sicrhau bod y Ganolfan yn cyflawni ei hamcanion strategol, ac yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg.

Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol ar ddiwedd Gorffennaf 2024 oedd:

Enw

Rhian Griffiths
Owain Gruffydd
Tim Hartley
Alan Jones
Alun Jones (Cadeirydd)
Josh Miles
Steve Morris
Nia Parry



8. Strategic Planning

Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital. The only member of the company under the Articles of Association is the University of Wales Trinity Saint David. Members of the Board of Directors are Emlyn Dole (Chair), Maria Stedman and Geraint Roberts. The Venerable Randolph Thomas retired during the year. These members are directors; non-exec members include the Centre's staff, as well as observer, Alun Jones, Chair of the Centre's Advisory Board.

The corporate and constitutional aspects of the Centre are the responsibility of the Board of Directors. Under the Company's Articles of Association, the Centre's Advisory Board was established. The Advisory Board ensures the Centre meets its strategic objectives and delivers services to the Learn Welsh sector.

The Advisory Board's members at the end of July 2024 were:

Name

Rhian Griffiths
Owain Gruffydd
Tim Hartley
Alan Jones
Alun Jones (Chair)
Josh Miles
Steve Morris
Nia Parry

Fframweithiau ansawdd

Mae'r Ganolfan a'i darparwyr yn gweithredu fframweithiau ansawdd fel modd o anelu at ragoriaeth. Mae'r fframweithiau yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gwella ansawdd yn y pum maes a arolygir gan Estyn, sef:

- Safonau
- Lles ac agweddau at ddysgu
- Addysgu a phrofiadau dysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

Estyn

Mae Estyn yn arolygu gwaith y Ganolfan a'i darparwyr. Cynhaliwyd arolygiad o'r Ganolfan yn ystod Gwanwyn 2024, ac yn ei adroddiad, mae Estyn yn dweud bod y Ganolfan bellach yn "ddyfanwadwr ieithyddol."

Yn ogystal â sicrhau ystod o gyrsiau sy'n cyd-fynd â'r CEFR, mae Estyn yn adrodd bod y Ganolfan yn ganolog i fentrau i normaleiddio defnydd o'r iaith. Mae Estyn yn canmol y cynnydd yn y ddarpariaeth sector-benodol.

Mae Estyn yn argymhell bod y Ganolfan yn parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg o ran addysgeg a chaffael ail iaith, a'i bod yn dal ati i hwyluso gweithgareddau sy'n integreiddio siaradwyr newydd ac anfoddog mewn mentrau i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg.

Bydd y Ganolfan yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd hyn dros y cyfnod i ddod.

Quality Frameworks

The National Centre and its course providers operate quality frameworks in order to aim for excellence. The frameworks include indicators for improving quality in the five areas inspected by Estyn:

- Standards
- Wellbeing and attitudes to learning
- Teaching and learning experiences
- Care, support and guidance
- Leadership and management

Estyn

Estyn inspects the work of the National Centre and that of its providers. An inspection of the Centre was held in Spring 2024, and in its report, Estyn says the Centre is now a "linguistic influencer."

As well as ensuring a range of courses which align with the CEFR, Estyn says the Centre is central to initiatives to normalise the use of the language. Estyn also praises the increase in sector-specific provision.

Estyn recommends that the Centre continues to extend and share the expertise of the Learn Welsh sector in terms of pedagogy and second language acquisition, and that it continues to facilitate activities that integrate new and reluctant speakers in initiatives to normalise the use of Welsh.

The Centre will continue to focus on these areas over the coming period.



Staffio

O dan arweiniad y Prif Weithredwr, Dona Lewis, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n bedair cyfarwyddiaeth:

- **Y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu** sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd.
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu: Helen Prosser
- **Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu** sy'n gyfrifol am gyllid a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Cymraeg Gwaith.
Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu: Lowri Bunford-Jones
- **Y Gyfarwyddiaeth Strategol** sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth ar gyfer pobl 16-25 oed, a'r Gweithlu Addysg.
Cyfarwyddwr Strategol: Meinir Ebbsworth
- **Y Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu** sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r sector.
Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu: Hannah Thomas

Mae'r Ganolfan yn cyflogi 21 o staff llawn a rhan amser.

Cyllideb

Dyma grynodedb o gyllideb y Ganolfan ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-2024:

	Cyfanswm
Grant Gweithredol	£ 1,900,000
Grant Rheolaidd (Darparwyr)	£ 8,810,000
Cymraeg Gwaith	£ 2,575,832
Ymlaen gyda'r Dysgu (gweithlu addysg a phobl ifanc)	£ 1,865,000
CYFANSWM	£ 15,150,832

Mae'n bosib gweld cyfrifon llawn y Ganolfan ar wefan Tŷ'r Cwmniau.

Staffing

Led by the Chief Executive, the Centre's work is divided into four directorates.

- **Teaching and Learning Directorate**, responsible for curricular aspects.
Director of Teaching and Learning: Helen Prosser
- **Planning and Development Directorate**, responsible for finance and performance management systems and special projects, including Work Welsh.
Director of Planning and Development: Lowri Bunford-Jones
- **Strategic Directorate**, responsible for the provision for young people aged 16-25, and the Education Workforce.
Director of Strategy: Meinir Ebbsworth
- **Marketing and Communications Directorate**, responsible for promoting the sector.
Director of Marketing and Communications: Hannah Thomas

The Centre employs 21 full and part-time members of staff.

Funding

Funding summary for the Centre for the 2023-2024 academic year:

	Total
Operational Grant	£ 1,900,000
Regular Grant (Providers)	£ 8,810,000
Work Welsh	£ 2,575,832
Ymlaen gyda'r Dysgu (education workforce and young people).	£ 1,865,000
TOTAL	£ 15,150,832

The Centre's full accounts can be seen on the Companies House website.

9. Cysylltwch â ni:

Cwestiwn neu sylw neu ymholiad Dysgu Cymraeg?
Mae croeso i chi gysylltu â ni:

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Ffôn: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru



9. Contact us:

Any comments or a Learn Welsh query?
Please contact us:

National Centre for Learning Welsh
Y Llwyfan
College Road
Carmarthen
SA31 3EQ

Tel: 0300 3234324
office@learnwelsh.cymru

learnwelsh.cymru





Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh